



# Llais y Llan Chwefror 2022

**Copy date 26 Mawrth 2022**

**Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol**

[www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk)

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Llais y Llan



Daffodils - *Cennin Pedr*  
*Carolyn Smethurst*

## Llais y Llan

Bu Cyfnewidfa Gwybodaeth Llanpumsaint yn cyhoeddi Llais y Llan bob yn ail fis ers Ebrill 2010. Hoffwn ddiolch i'n holl unigolion a sefydliadau am eu cyfraniadau i'r cylchgrawn a hefyd i'r rhai fu'n hysbysebu gyda ni dros y cyfnod. Derbyniwyd cymorth hefyd oddi wrth Gyngor Cymuned Llanpumsaint ac yn ddiweddar oddi wrth Gronfa Fferm Wynt Brechfa. Danfonir copïau o'r Llais hefyd i Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Rhaid i mi beidio anghofio diolch i chi ein tîm fu wrthi'n dosbarthu'r Llais drwy'r gymuned ym mhob tywydd. Fel Golygydd mae'n bleser gennyf gyhoeddi help llaw ychwanegol wrth adolygu'r cylchgrawn ac yn hynod ddiolchgar am hynny.

Daliwch ati i anfon eich cyfraniadau, holiadau, newyddion a'ch lluniau ataf. Byddaf yn eu hadolygu'n synhwyrol gogyfer a gweddill y tîm. Cyswllt - [info@gwilimill.com](mailto:info@gwilimill.com) <mailto:info@gwilimill.com>



**Great Tit – *Titw Mawr***  
Clare Bishop



**Greenfinch - *Llinos werdd***  
Sally Chitty



**Bullfinch – *Coch y Berllan***  
Clare Bishop



**Great Spotted Woodpecker in slow motion**  
*Cnocell Fraith Fwyaf wrthi'n araf deg*  
Marlene Wareham



**Song Thrush – *Bronfraith***  
Clare Bishop



**Redpoll – *Bencoch***  
Sally Chitty



## Heol arall yn cau

Bydd yr hewl o'r Graig i Bontarsais, sef y B4301 ar gau o Ddydd Llun Chwefror 14eg am dair wythnos, er mwyn gwneud gwaith atgyweirio'r dŵr ger ardal yr hen Dip. Gan taw neges o'r Cyngor ac nid y contractwyr yw hyn gall y dyddiadau amrywio.

Ralph Carpenter

## Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint.

Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

Er blwyddyn arall heriol oherwydd Covid19 daeth yna bethau cadarnhaol. Bu'r Pwyllgor, gyda'ch cefnogaeth a'ch haelioni, wrthi'n codi arian i wella'r Maes Chwarae, ynghyd a'n Elusen ddewisol sef Uned Cancr y Fron Llanelli. Felly diolch i bawb.

Ni wnaeth y tywydd na'r haint atal Gorymdaith Siôn Corn eleni. Er i ni fethu cyfarfod yn y Neuadd bu'n wefr gweld cymaint wedi dod mas. Diolch i Siôn Corn am ymweld â Llanpumsaint ar Noswyl Nadolig. Diolchwn hefyd i Mic Barrett am ei rodd o ddanteithion a ddsosbarthwyd i'r plant. Danfonwyd yr hyn oedd yn weddill i Fanc Bwyd Caerfyrddin. Gyda'r gwaith yn deillio arian Brechfa ar gychwyn a'n bwriad i ddal ati i godi arian, edrychwn ymlaen at flwyddyn gynhyrfus i'r Maes Chwarae. Felly diolch yn fawr i chi gyd unwaith eto.

Rydym o hyd yn chwilio am aelodau newydd i ymuno a'r Pwyllgor, felly cysylltwch os oes diddordeb. E-bost i [parcllanpumsaintpark@gmail.com](mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com) <<mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com>> neu siaradwch ag un o'n haelodau. Fel y gwyddoch mai Derick bellach wedi ymddeol o redeg y Clwb Cant. Mae'r Pwyllgor Lles ac Adloniant yn hynod o ddiolchgar iddo am ei holl waith caled a chyson dros y blynyddoedd y bu wrthi. Bu'r Clwb yn ffynhonnell hynod o bwysig i gynnal a chadw'r Maes. Gan na ddaeth neb i'r adwy bydd y Pwyllgor yn ysgwyddo'r baich o redeg y Clwb Cant. Os oes yna rywun sy'n barod i gynnig help llaw neu hyd yn oed redeg y sioe cysylltwch â ni fel yr awgrymwyd uchod.

## Clwb Chwe deg Gwili

Bydd ein haelodau a'r rhai ar fin ymuno yn falch i glywed fod ein cyfarfodydd ar droed unwaith eto.

- Chwefror 28 - Dathlu Gŵyl Dewi - Cawl ac adloniant gyda Band Ukulele Caerfyrddin. Cofiwch ddod a basin a llwy gogyfer a'r cawl a phlât bach i'r danteithion wedyn.
- Mawrth 28 – Mary Thorley - “Caerfyrddin a'r Mudiad Swffraget”
- Ebrill 25 – Ian Goddard - O'r Cneifio i'r Ryg
- Mai 23 – Robert Owen - RNLI

Cynhelir pob cyfarfod yn Neuadd Bronwydd i gychwyn am 2 o'r gloch.

Ceir mwy o wybodaeth drwy gysylltu ar Ysgrifenyddes Val Giles 01267 281094

## Curad Calon Llanpumsaint

Mae'r Pwyllgor bychan yma'n gyfrifol am gynnal 4 Adfywiwr i'r ardal. Hoffwn weld rhagor ar y Pwyllgor i gymorth y cynnal a chadw. Y bwriad yw cynnal mwy o ymarfer yn y dyfodol i ledaeni'r hyder o'u defnyddio pan fod galw. Rhestrir y 4 Adfywiwr yn y Gofrestr Genedlaethol, a bu yna drafodaeth ychwanegu 2 arall - un ger yr Ysgol ac un ger safle'r Bws. Cynhelir cyfarfod arbennig **2 Mawrth am 8 o'r gloch** er mwyn diweddari'r Cyfansoddiad gan leuhau'r nifer angenrheidiol i'r Cyfarfod o 6 i 4. Yn dilyn hyn cynhelir Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn y Neuadd.

Dyma leoliad y 4 Adfywiwr yn Llanpumsaint –

Tu fas y Neuadd - sa336bz

Tu fas Tafarn y Railwe – sa336bu

Ar y mur tu fas fferm Henfryn ar y ffordd i Ffynnonhenri – sa336ld

Tu fas Festri Nebo – sa336hn

Nid oes angen cod arnoch – agorwch y caead ac mae'r Adfywiwr ar gael

Os am wybod mwy cysylltwch â Carolyn 01267 253308 neu [info@gwilimill.com](mailto:info@gwilimill.com) <<mailto:info@gwilimill.com>>

## Gwasanaethau Capel Nebo

Am wybodaeth cysylltwch â'r Ysgrifenyddes Meinir Jones 01267 253532

## Capel Ffynnonhenri

Am wybodaeth cysylltwch â'r Trysorydd Danni Davies 01267 253418 neu'r Ysgrifennydd Gwyn Nickolas 01267 253686.

## Capel Caersalem

Os am ymuno a ni chysylltwch â 01267 253895 am wybodaeth bellach

## Rhandir Llanpumsaint

Os am wybod mwy am ein Rhandir cysylltwch â Rosie ar 07950411536 neu drwy E-bost [RosieFrewin@yahoo.co.uk](mailto:RosieFrewin@yahoo.co.uk) neu gael gair gyda Ray 01267b253157

## Cylch Meithrin Bronwydd

Os am wybod unrhyw beth gysylltwch â Verona ar 07929431652

## Bowlio Dan Do Llanpumsaint a Nebo

Bu'r tymor newydd yn heriog. Llwyddiant 6-2 yn y gêm gynta' i ffwrdd yn erbyn Llandeilo, ac yna cyfartal 4-4 i ffwrdd eto erbyn Llanboidy B, hyn cyn Nadolig. Yn Anffodus oherwydd y Firws gohiriwyd ein gem adre yn Ionawr erbyn Llanddarog A, hyd nes ymlaen yn y flwyddyn. Yna i ffwrdd a ni eto am y trydydd tro'n olynol erbyn Pontargothen, a cholli 2-6 erbyn tîm cryf iawn. O'r 5 gem sy'n weddill bydd pedair ohonynt gartre.

Bydd y Clwb yn cyfarfod i ymarfer bob nos Lun a Nos Iau yn y Neuadd o 7.30 yh tan 9.30, hyd ddiwedd Ebrill. Mae yna groeso i bob chwaraewr newydd o 16 oed hyd 99, ac mae yna hyfforddwy trwyddedig wrth law i'ch cymorth a'ch ysbrydoli. Ceir mwy o wybodaeth drwy ffonio Derick Lock ar 253524 neu ein Hysgrifenyddes Jill Edwards ar 253474.

## Rheolau'r Ffordd Fawr

*Clywais fod yna newid wedi digwydd felly es ati i grynhoi'r hyn sy'n wahanol i'r Llais.*

Efallai i chi fod yn ymwybodol fod Rheolau'r Ffordd Fawr i newid o'r 29ain o Ionawr 2022 ymlaen gyda 8 Rheol newydd ynghyd a 49 diweddariad i'r Rheolau sydd eisoes yn bodoli.

Ymysg y newid mae Hierarchaidd Defnyddwyr y Ffordd Fawr sy'n rhoi blaenoriaeth i'r rhai sy'n agored i niwed, megis sef beicwyr a cherddwyr.

Mae Rheol 2 gogyfer a gyrwyr cerbydau, motobeics, marchogwyr ceffylau a beicwyr yn datgan y canlynol -- *"Wrth y gyffordd dylech roi blaenoriaeth i gerddwyr groesi neu sy'n aros i groesi'r ffordd i chi arni neu'n troi iddi"*

Rheol 3 - At yrwyr cerbydau a motobeics ac yn datgan y canlynol - *"dylech ddim torri ar draws beicwyr. Ceffylau na cherbydau ceffyl wrth iddynt symud ymlaen neu droi wrth gyffordd nac wrth iddynt newid cyfeiriad"*

Gyda'r cynnydd mewn ceffylau, beicwyr, rhedwyr a cherddwyr, yn enwedig yn sgil Covid19 a'r cyfnodau clo, gwelwyd llawer mwy o'r uchod ar ein heolydd. Daw cyffwrdd y Graig a Cnwycpistyll am Nebo a gwaelod Rhiw Cwppers yn flaenllaw i'r meddwl. Felly mae'n bwysig i bawb fod yn ymwybodol o'r newidiadau yma yn y gyfraith a chanllawiau'r Ffordd Fawr.

A chadwch lygad am feicwyr ar ganol hewl o'ch blaen!

Carolyn.

## Dewinwyr Gorllewin Cymru

Mae dewinio yn arferiad diddorol, a gall unrhyw un ei wneud. Credir iddo ddatblygu o'r Aifft neu hyd yn oed cyn hynny. Bydd nifer o gwmnïoedd yn defnyddio dewinwyr i ganfod dŵr, mwynau, olew neu wifrau trydan. Bydd rhai yn dewinio i ganfod iechyd eu bwydydd, neu olrhain straen geopathi eu hamgylchedd, ond ar hyn o bryd cred bersonol yw hyn heb fendith gwyddonol. Pam na ddewch chi atom i ddysgu mwy; £12 am ymaelodi am flwyddyn ond £5 y cyfarfod wedi hynny, ac fe fydd yna gwpaned a bisgedi i'r fargen. £6 y tro os nad ydych yn aelod. 'Does dim angen cyfarpar jyst trowch lan. Efallai bydd gwisgo mwgwd a chadw pellter yn ofynnol o hyd os nad oes cyflwr meddygol yn eich eithrio.

Gwylwch ein gwefan - <http://westwalesdowers.org.uk> neu ffoniwch Sandy 01267 253547

Cyfarfodydd 2022 Cychwyn am 1.45 yb bob tro yn Neuadd Bronwydd

- Sul Mawrth 27 - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol - yn ddi-dâl
- Sul Ebrill 24 – Sul Mai 22 – Siaradwyr a phynciau i'w trefnu.

## Newyddion o Clifford House Y Graig

Ers symud i hen dafarn Clifford House ger y Graig rhyw bum mlynedd 'nol buom yn hel straeon am y bobl fu'n byw 'mha cynt. Ble bynnag fyddaf yn gweithio gan egluro ble wy'n byw'r ymateb cynta' yw "O ie! Tŷ Jennie Graig!". Drwy ymchwilio'n bellach wedi sgwrs dros beint gydag Arwyn Thomas ddaeth rhagor o straeon i'r wyneb o ganol 1800 i ddechrau 1900.

Llynedd ymchwiliais wefan <https://nwspapers.library.wales>. Daeth bwydo Clifford House lan a rhyw gant o storiâu, gyda nifer ohonynt am gyfarfodydd Hela fu'n cychwyn oddi yno. Bu adroddiadau eraill am chwsg. Anghyfreithlon, cynnal oriau agor anghyfreithlon, ymladd, dwyn ffowls, smygu a marwolaethau. Defnyddiwyd y dafarn hefyd i gynnal Cwest. Deunydd hynod o ddiddorol yw hyn oll, i gyd wedi ei ysgrifennu yn null iaith y cyfnod. Gan i nifer ohonom fyw mewn hen dai pam na ymchwiliwch i'w cefndir. Islaw 'rwy'n cynnwys adroddiad o'r Carmarthen Weekly 4dd Ionawr 1901. Mwynhewch ac wrth basio yma cadwch yn ddiogel, gwenwch, codwch law a chadwch lygad am yr heddwes P C William James.

## Y Diweddaraf ar Sgamiau

Mae bywyd yn ail gydio i'r cyfarwydd o'r diwedd yn y gobaith y gwelwn gefn yr hen firws cas o'r diwedd yn 2022. Ond mae yna ddigon o chwilod cas arall sy'n awyddus i feddiani eich cyfarpar neu'ch ffon. Maent yn hoff o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Os nad ydych ar Facebook, E-bost neu WhatsApp yna'r un ffordd arall i'ch cyrraedd yw drwy'r ffon. Anaml iawn iddynt ddod drwy'r post. Dyma rai pethau i'w cofio.

Bitcoins - pobl enwog yn dweud eu bod wedi buddsoddi mewn rhywbeth ariannog mewn amser byr. Anwiredd! Rhy dda o lawer i fod yn iawn. Gadewch i fod.

Facebook - derbyniais negeseuon sy'n edrych fel sgamiau, dyma un enghraifft ddaeth I think this is you-

<<https://306v.short.hy/YFnQRTWho>> knows what this will do, felly peidiwch glicio arno. Newidiwch eich cyfyng air hefyd.

Logiwch allan o bob cyfri Dan Security a Login dewiswch More. Mi welwch lawer man lle buoch cynt a ble i chi nawr. Ar y gwaelod dewiswch Log Out of all sessions

Rhybuddiwch eich cyfeillion

Gwnaf hyn yn aml fel rhybudd os bu hacio. Gofynnaf gwestiwn sydd angen gwybodaeth e.e Pryd gwrddon ni

ddiwethaf? Shwd i chi'n nabod fi? Neu gofynnwch am rif ffon iddynt. Dyle rhywbeth fel hyn ddatgelu'r gwir.

Neges bwysig - peidiwch glicio ar unrhyw beth amheus - twyllo yw ei nod ac mi allai effeithio ymlaen at eich cyfeillion a'ch cysylltiadau eraill.

Ebost Scam - Gallant ddod o wahanol lefydd ond byddant i gyd yn dangos tic yng nghyfeiriad y ffynhonnell e.e

**From:** ✓ SONY PLAYSTATION

**From:** ✓ NORTON Renewal

**From:** ✓ SAMSUNG <[news.BDoTpxEmwg@aks.od.ua](mailto:news.BDoTpxEmwg@aks.od.ua)>

**From:** ✓ Mc<[news.cKMuTZtLqs@spaceforce.design](mailto:news.cKMuTZtLqs@spaceforce.design)>

**From:** ✓ Mc<[news.xrnkzYfQSD@spaceforce.design](mailto:news.xrnkzYfQSD@spaceforce.design)>

Fel y gwelwch o'r enghreifftiau uchod mae'r parth (sef y rhan wedi'r @)yr un fath ond mae'r rhan cyn hynny yn hollol wahanol - gwelir y tic bob tro. Dylech wneud rheol i anwybyddu'r rhain. Gyda rhan fwyaf o systemau E-bost gellir atal y rhain neu ddileu fel sothach.

Y pennyn yw'r rhan gudd o bob E-bost sy'n datgelu ei gefndir. Gallwch weld hefyd ym mha ran o'r byd y bu cynt - gwnaf hyn yn fynych er mwyn canfod sgams. Un arall ffug yw'r un sydd yn eich Llongyfarch a gallwch atal y rhain hefyd. Rhag ofn i chwi wneud camgymeriad edrychwch yn rheolaidd yn y blwch Sothach - efallai eich bod wedi gwir ennill rywbeth lleol.

Cystadleuaeth Ffug Tesco - Mae'n honni i chi ennill gwobr ond er mwyn rhyddhau'r arian dywed fod raid i chi wario ychydig bunnoedd, gan ofyn i gwrs am fanylion eich Banc - Wel syndod y byd ontife!

Nid ydych yn debygol o ennill gwobr mewn cystadleuaeth na wnaethoch fynychu. Fach iawn ddaw am ddim! Ceisio achub mantais ar y gwan mha nhw! Felly peidiwch cwmpo amdani!

Trosglwyddo Nwyddau - Gall neges ddod ar Facebook oddiwrth UPS ynghlyn a chyswllt cludiant - parsel yn aros i chi yn y ganolfan. Gwyliwch am y rhif 371-34632900 oherwydd dyma'r rhif mae'r sgimwyr hyn yn defnyddio bob tro. Os cliciwch chi arno gofynnir am arian cyn trosglwyddo'r parsel. Welwch chi fyth ohono oherwydd wedi cael manylion y Banc bydd y Sganiwr yn dathlu.

Stop Press - un newydd yw hwn! Daw neges ar eich ffon yn honedig o'r Banc, yn honni fod yna ddyfais newydd i mewn i'ch Cyfri, a bod angen i chi gadarnhau hynny gan ofyn am eich manylion. Peidiwch nid eich Banc chi ddanfonodd y neges.

Y Rheol Aur – Unrhyw beth amheus yn gofyn am fanylion personol ar frys, pwyllwch ac ystyried cyn ymateb.

Cymorth os oes gennych Gyfri BT – Gallwch ddefnyddio eu cyfarpar cyfrinachedd er mwyn mwyn eich amddiffyn rhag yr holl fygythiadau sydd mas yna –

Ewch i'ch Cyfri BT

Get More from my BT

Your security, manage

Bt Virus Protect - Bydd hyn yn eich galluogi i lawr lwytho Norton - Mae'n wasanaeth rhad ac yn gallu amddiffyn dau declyn.

Oherwydd prinder lle yn y rhifyn yma o'r Llais cwtogwyd yr eitem yma. Beth bynnag drwy fynd i'r cyswllt canlynol gallwch weld yr holl bregeth – <https://tinyur.com/4n4dzwhc>

Cadwch yn ddiogel ac yn iach - eich cyfaill amddiffynnol PC Dave

## Eglwysi Llanpumsaint, Celynin a Llanllawddog

Bu cynnig lletygarwch yn rhan annatod o'r ffydd Gristnogol. Yn Llyfr y Rhufeiniaid darllenwn su wnaeth Sant Paul annog yr Eglwys Gynnar i "ymestyn lletygarwch i ddieithriaid" (12/13) a "Chroesawu ein gilydd" (15/17). Credwn fod Duw yn pryderi am letygarwch oherwydd ei fod yn pryderi am bobl a chynnig lletygarwch beth bynnag eu daliadau, er mwyn atgyfnerthu'r gymuned.

Gyda hyn mewn golwg pleser yw hi i Eglwys Llanpumsaint agor Caffi Bach Di-elw bo Dydd Mawrth o 11.30 hyd 2.30 yp, yng ngofal gwirfoddolwyr. Dyma gyfle i bobl am glonc ynghanol y pentref neu jyst dod allan o'r tŷ am baned. Os am alw'n gyflym am greision neu ddiod a mynd, mae hyn yn iawn hefyd, oherwydd mae'n agored i bawb. Cynigir digonedd o de a choffi masnach deg am 50 ceiniog (Gwell bargaen na Costa neu Starbucks), ynghyd a chynnyrch lleol organig a diod a byr brydau masnach deg LOAF. Derbyniwyd cymhorthdal hael o law Cymunedau Cysylltiedig Caerfyrddin i'n galluogi i gynnig amrywiaeth o bapurau newydd i'ch diddori yn y Caffi Bach, ac mae yna hefyd amrywiol gemau yno i'ch diddori. Fel pob gwasanaeth lleol arall gan gynnwys ei eglwysi, dibynnwn ar gefnogaeth a phresenoldeb y cyhoedd. Eisoes datblygodd y Caffi i fod yn fenter gymunedol lwyddiannus. Felly trowch i mewn atom os gallwch chi.

Os oes angen trafndiaeth arnoch i gyrraedd y Caffi Bach neu unrhyw wasanaeth eglwys arall cysylltwch â'r Parch Gaynor gaynorjones-higgs @cinw.org 01267 253158

Fel arfer y ffordd orau i gadw mewn cysylltiad â'r hyn sy'n digwydd yn ein heglwysi yw dilyn Facebook neu edrych ar yr hysbysfyrddau tu allan i'r eglwysi. <<https://www.facebook.com/llanpumsaintbronwyddandllanllawddog>> churches.

## Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Ar 30.11.2021, wnaeth y Cyngor ystyried adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol; 'Methiant i gyflwyno cyfrifon blynyddol i'w harchwilio a phryderon llywodraethu ehangach' a rhyddhawyd er budd y cyhoedd. Fel rhagymadrodd i'r cyfarfod, rhoddwyd cyflwyniad gan y Cyngor ar sut maen't yn rheoli arian cyhoeddus wrth iddynt ddilyn y ddogfen asesiad risg.

Ymateb a phenderfyniad y Cyngor i'r adroddiad a'r argymhellion oedd:

- Derbyn argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ac
- i dynnu llinell o dan yr anghydfod a fu a symud ymlaen a chydweithio mewn ffordd drefnus gyda Archwilo Cymru

## Gwasanaethau Eglwysi Lanpumsaint

Cynigwn Foreol Weddi ar Zoom am 9 yb ar Ddydd Mercher 10 yb Dydd Sul.

- Sul Chwefror 20fed Gwasanaeth Cymun Celynin am 2 yp
- Sul Chwefror 27ain Boreol Weddi Llanllawddog 11 yb, Cymundeb Lanpumsaint 2 yp

O Fis Mawrth ymlaen bwriedir dychwelid at wasanaethau wythnosol. Mae natur y gwasanaeth a phwy fydd yn arwain o hyd dan ystyriaeth, yn y gobaith o ddod i benderfyniad ar yr 8fed o Chwefror.

- Zoom – 9.30 yb – Zoom Boreol Weddi
- 11 yb Llanllawddog a Chelynin
- 2 yp Lanpumsaint
- 2 yp Sant Alban Cwmdud – Sul 1af a’r 3dd bob mis.

Rhybudd - Gall Eglwys Lanpumsaint fod ar gau am rai Suliau oherwydd gwaith adeiladol. Y ffordd orau o gadw lan fydd talu sylw i’r hysbysfwrdd

Bydd Cylch DOT o’r oed 10 lan yn cwrdd yn wythnosol mewn gwahanol leoliadau, felly cysylltwch â Gaynor.

## Y Cyngor a’r Gymuned

Pan gyrhaeddwn ni Lanpumsaint yn 1977 ‘roedd yma dwy siop, tafarn, garej yn gwerthu petrol a Swyddfa Bost. Er i’r boblogaeth yn y pentref gynyddu mae’n ein gwasanaethau, gydag ychydig gau ac agor, yn raddol ddiplannu. Nid yw hyn yn unigryw i Lanpumsaint, ond yn adlewyrchu mwy o symud yn sgil defnydd ceir a’r tuedd i siopa a’n diddori ar Lein. Gyda ffermio’n mynd yn fwy mecanyddol mae ‘na lai o gymdeithasu wrth weithio neu ymlacio. Diflannodd y dyddiau cyneuf cymunedol, amser Te mas ar y caeau a holl gynnwrf a phleser tynnu tato.

Beth bynnag i ni o hyd yn byw mewn pentref ac mae gan lawer ohonom ddi-ddordeb yn beth sy’n digwydd yma. Hoffwn weld ail gydio mewn cymdeithas fywiog ac adennill rhai o’r cyfleusterau a gallwyd. Beth am Siop Gymunedol ac achub y Tafarn? Calon y Gymuned yw’r Cyngor Cymuned, 8 unigolyn yn Lanpumsaint sy’n derbyn ar ein rhan swm bychan o law’r Cyngor Sir bob blwyddyn i gyflawni rhai anghenion. Gwnaed hyn dros flynyddoedd lawer gan unigolion ac ymdeimlad o gyfrifoldeb cymunedol yn barod i roi o’u hamser ac egni.

Daw Etholiad ym Mis Mai. Gall cynghorwyr presennol gynnig eu hunain i wasanaethu unwaith eto, ond mae yna ddwy sedd wag ar y Cyngor presennol, ac efallai mwy os nad yw pawb am barhau. Felly a fydddech yn barod i roi tro arni, neu a wyddoch am rywun fyddai’n ymgeisydd dilys. ‘Dyw’r swydd ddim yn rhy anodd gyda’r cyfarfodydd bob yn ail fis.

Cynhelir y cyfarfodydd yn Gymraeg ond mae yna gyfieithydd penigamp yn dod try’ ch clust.

Gellir darllen Arweinyfr i’r Cynghorwyr ar [www.onevoicewales.ork.uk](http://www.onevoicewales.ork.uk) er mwyn canfod mwy am y swydd.

Beth yw’r cam nesaf? Trafodwch gyda’ch cyfeillion a’r pentrefwyr i ganfod ymgeiswyr. Mae’r ffurflenni Cais ar y lein ac mae rhifau ffôn ein Cynghorwyr presennol ar wefan y Cyngor. Mae holl gyfarfodydd y Cyngor yn agored i’r cyhoedd.

Beth am roi cynnig arni i gynrychioli eich cymuned? Os wedodd Elvis “It’s now or never!” Wel ddim cweit falle, ond bob pedair blynedd ddaw’r cyfle.

Barry Wade

## Agorodd Clafdy Skanda Vale ei ddrysau i'r cyhoedd unwaith eto wedi dwy flynedd hir gaeedig.

Mae Clafdy Skanda Vale wedi goresgyn pob rhwystr ddaeth yn sgil Covid19, felly ar y 26ain o Ionawr 2022 agorwyd y drysau unwaith eto i'r cleifion presennol gyda bwriad i groesawu rhai newydd fu disgwyl.

Rydym yn Elusen Gofrestredig ac yn Glafdy annibynnol gyda 6 gwely yn gofalu am gymunedau cefn gwlad De Cymru. Cynigir amrywiaeth wasanaethau gofal lliniarol gan gynnwys Gofal Dydd a Gofal Seibiant i oedolion yn dioddef o unrhyw anhwylder cyfyngol. Dyma un o'r mudiadau prin sy'n cynnig cymorth i deuluoedd a Gofalwyr yn ychwanegol i'r gofal am y claf. Nid y gymuned leol yw'r unig un i elwa oherwydd bod Skanda Vale yn cynnig cymar menter bell, hynny yw gwasanaeth gwrando cenedlaethol safonol i gleifion drwy'r holl deyrnas, yn rhoi cyfle i drafod gyda gwirfoddolwyr aeddfed. Lanswyd yr ymgyrch yma yn ystod y Cyfnod Clo pan fu unigedd a theimlo'n ar wahân yn broblem gynyddol. Daeth y dull o gynnal cysylltiad cefnogol cyson gyda'r cleifion mor llwyddiannus nes argyhoeddi'r Clafdy i'w datblygu'n

helaeth yn ystod y Clo fel rhan annatod o'r gwasanaeth. Gosododd dull arloesol yma Skanda Vale ar faes newydd cyffroes.

Yn wahanol i nifer o glafdai eraill gwirfoddolwyr yn unig sydd yma gyda ni. Ar wahân i nifer bychan cyflogedig, gan gynnwys nyrsys trwyddedig, sydd yn angenrheidiol dan amodau Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru mae pawb arall o weithwyr y gegin i'r Tim Rheoli yn cynnig eu gwasanaeth a'u harbenigrwydd yn rhad ac o'u gwirfodd. Yn ôl y tad Michael, un o Ymddiriedolwyr cyntaf y clafdy, mae'r ymadrodd "Gwirfoddolwyr" cysylltir i gair gyda diweithdra neu ymddeoliad, ond mae safon y sgiliau amrywiol ar draws y mudiad yn syndod o uchel. O'r gwirfoddolwyr presennol maent yn amrywio o gyn swyddogion Corfforaethol, Cyfarwyddwyr Ymgynghorwyr Meddygol a Nysis Arbenigol. Maent i gyd yn rhannu un canolbwynt, sef credu mewn llunio model cynladwy sy'n annog i bobl roi yn ol i'w cymuned. Dywed Nick Gilbert, sy'n gyfrifol am ddenu staff i'r Clafdy - "Un o ragoriaethau'r model gwirfoddol dros yr un corfforedig yw nad oes rheidrwydd i'r Tim fod yno ond maent yn awyddus i fod yno. O gerdded i mewn gallwch deimlo hyn gyda'r naws yn eich taro'n syth. Nid dyma fydddech yn ei ddisgwyl mewn awyrgylch terfynol bywyd. Mae'r clafdy'n lawn bywyd a llawenydd ac ar ddiwedd shift hir 'does neb yn ysu am adael"

Pan edrychwch ar ddiffiniadau rhai o'r gwirfoddolwyr daw'n glir shwd gallwn ymfalchïo'n yn y safon arbennig yma gyda'r ymrwymiad mor uchel i ofal. Mae pob gwirfoddolwr beth bynnag eu cymwysterau a'u cefndir yn derbyn hyfforddiant mewnol, gyda'r cynnig o gymorth 1-2-1 oddi wrth aelod profiadol neu arweinydd. Da cyfleoedd i aeddfedi a thyfu mewn profiad wrth wasanaethu ein prif nod sef gwasanaethu ein cleifion.

" Mae Skanda Vale yn le hyfryd lle gallaf ofalu a nyrsio fel 'rwy'n dymuno. Yn wahanol i'r ward or-brysur mewn Ysbyty lle mae gennych gymaint o gleifion i'w gofalu, gallaf eistedd lawr da rhywun yn Skanda Vale, dal ei llaw wrth jyst fod yno iddynt" - Keira Prif Nyrs yn Skanda Vale.

Rydym ar hyn o bryd yn gwahodd gwirfoddolwyr a Nyrsys fyddai'n cael eu talu, os am gynnig eich hun ewch i'n gwefan [www.skandavalehospice.org/join-our-team](http://www.skandavalehospice.org/join-our-team)

## Cyfrifiad 1921

Er gwaethaf holl anawsterau'r Cofid19 'doedd popeth ddim yn ddrwg i gyd, a bu yna ambell fantais. Yn sgil y Cyfnod Clo caniatawyd i unigolion dwrio i mewn i bob cyfrifiad o 1841 hyd 1911 o'u cartrefi neu rywle arall ar y We. Felly gallech dwrio i mewn i bob Cyfrifiad o 1841 hyd 1911 bob deng mlynedd, yn rhad ac am ddim pa bynnag amser fu'n gyfleus i chi, dim ond eich bod yn aelod rhad o'r Llyfrgell Felly bu'r trefniant yn hynod o gyfleus i haneswyr, ymchwilyr a selogion achau teuluol.

Felly yn sgil holl gyhoedduswydd cyhoeddi Cyfrifiad 1921 codwyd gobeithion llawer i'r cymylau. Ond Na! Nid felna y bu. Rhaid cydnabod mae trefniant dros dro fu caniatáu popeth ar y We, ond daeth yn siom ychwanegol i ddarganfod nad oedd gan Lyfrgelloedd fel Llyfrgell Caerfyrddin hawl i arddangos y manylion. Rhaid bod yn aelod o Find My Past, a thalu £2.50 am bob eitem, a hynny heb gyfle i gadarnhau a'i hwn yw'r un iawn ymlaen llaw Ddim mor ddrwg efallai os chi'n cwrso rhyw enw Seisnig fel Bassenthwaite ond yn ben tost costus wrth ganlyn rhyw David Jones neu John Williams yng Nghymru. "Odi'r un iawn 'da fi?". Yn ôl y son mi allwch drefni ymlaen llaw i ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth i weld manylion 1921, ond pwy a wŷr bob tro faint o amser sydd angen i ddarganfod eich ateb. Ond byddai'n gallach gadael pethau i fod ar hyn o bryd. Mae yna gamgymeriadau enfawr gyda'r enwau Cymraeg, yn anealladwy. Dywedodd un ymchwiliwr profiadol ar Radio Cymru ei fod wedi methu adnabod enwau llefydd yn ei ardal ei hun hyd yn oed. Mae yna addewid i gywiro pethau ond pryd? Felly pwyll bia hi!

## Etholiadau Llywodraeth Leol – Dydd Iau 5 Mai 2022

Bydd etholiadau Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael eu cynnal ddydd Iau 5 Mai 2022. Bydd pleidleiswyr yn y Sir yn cael cyfle i bleidleisio dros y cynghorydd/cynghorwyr ward y maent am iddynt am eu cynrychioli. Bydd Etholiadau'r Cyngorau Tref a Chymuned hefyd yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod. Bydd pleidleiswyr yn y Ward Tref neu Gymuned berthnasol yn cael cyfle i bleidleisio dros y cynghorydd/cynghorwyr ward y maent am iddynt eu cynrychioli.

### Sut y mae sefyll fel ymgeisydd Tref/Cymuned

Os ydych chi am fod yn gynghorydd, mae'n rhaid i chi sefyll fel ymgeisydd a chael eich ethol mewn etholiad Cyngor Tref/Cymuned. I fod yn gynghorydd, bydd angen i chi gyflwyno'r ffurflenni enwebu gofynnol i'r Swyddog Canlyniadau, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP rhwng dydd Llun 21 Mawrth a 4pm ddydd Mawrth 5 Ebrill 2022.

### Sefyll fel aelod o blaid wleidyddol

Os ydych yn dymuno sefyll fel ymgeisydd ar gyfer plaid wleidyddol yn yr etholiadau, mae'n rhaid i chi fod yn aelod o'r plaid leol. Mae'n rhaid i chi gysylltu â'r plaid lleol i gael gwybodaeth am sut i ymuno â'i sefydliad a sut y mae'n dewis aelodau o'r plaid i fod yn ymgeiswyr mewn etholiad.

### Sefyll fel ymgeisydd annibynnol

Os nad ydych am gynrychioli plaid wleidyddol, gallwch sefyll fel ymgeisydd annibynnol.

### Y Cyfnod Enwebu

I fod yn ymgeisydd mewn etholiad, mae'n rhaid i chi lenwi a chyflwyno papur enwebu i'r Swyddog Canlyniadau yn ystod cyfnod enwebu'r etholiad. Mae'r dyddiadau ar gael uchod.

Gallwch weld amserlen gyflawn yr Etholiad ar wefan Sir Gaerfyrddin. Bydd papurau enwebu ar gyfer etholiadau'r Cyngor 2022 ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Comisiwn Etholiadol ym mis Chwefror 2022: [www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk)

## Briffiad ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid

Bydd y Swyddog Canlyniadau yn darparu sesiynau briffio ar gyfer unrhyw un sydd am sefyll fel ymgeisydd yn etholiadau Cyngor Sir Caerfyrddin 2022.

Bydd y sesiynau briffio yn cael eu cynnal ar y dyddiadau canlynol:

- **Dydd Iau 3 Mawrth, 1-2pm** - gwahoddiad i ddarparu ymgeiswyr sy'n dymuno sefyll ar gyfer Etholiadau'r Cyngor Sir
- **Dydd Iau 3 Mawrth, 3-4pm** - gwahoddiad i ddarparu ymgeiswyr sy'n dymuno sefyll ar gyfer Etholiadau'r Cynghorau Tref a Chymuned
- Bydd rhagor o sesiynau briffio yn cael eu cynnal ar ôl y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau i drafod y diwrnod pleidleisio a'r cyfrif:
- **Dydd Mercher 6 Ebrill, 9-10am** ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll ar gyfer Etholiadau Sirol
- **Dydd Mercher 6 Ebrill, 11am-12pm** ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll ar gyfer Etholiadau'r Cynghorau Tref a Chymuned

Bydd y briffiau i gyd yn cael eu cynnal ar-lein, i gofrestru bod gennych ddi-ddordeb mewn mynychu unrhyw un o'r briffiau uchod, anfonwch e-bost at Amanda Bebb: [Abebb@sirgar.gov.uk](mailto:Abebb@sirgar.gov.uk)

### Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn bod yn ymgeisydd yn etholiadau Cyngor Sir Caerfyrddin 2022, anfonwch e-bost at Amanda Bebb, Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol i gael rhagor o wybodaeth: [Abebb@sirgar.gov.uk](mailto:Abebb@sirgar.gov.uk).

Cymerwch olwg ar ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau etholiadau llywodraeth leol a Chynghorau Cymunedau/Tref i gael rhagor o wybodaeth.

## Cynllun Prentisiaeth Mudiad Meithrin

### Diploma Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Mae Mudiad Meithrin yn cynnig cyfle newydd i gymhwyso fel ymarferydd trwy brentisiaeth Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Mae'r brentisiaeth hon ar gyfer staff a gyflogir (neu bydd yn cael eu cyflogi o ddyddiad cychwyn y brentisiaeth) gan ddarpariaethau megis Cylchoedd Meithrin, Meithrinfeydd Dydd preifat cyfrwng Cymraeg, a chan Ysgolion Cynradd cyfrwng Cymraeg.

Hon fydd y bedwaredd garfan o Brentisiaid fydd yn dechrau ar y cwrs yma. Dechreuodd y criw gyntaf ym Medi 2020, gyda chriw arall yn Ionawr a Medi 2021. Bydd lle i 30 Prentis newydd yn Ebrill 2022.

Mae'r cwrs yn para 18 mis, ac fe fydd yn rhaid i'r dysgwr fod yn gyflogedig yn y lleoliad am o leiaf 16 awr yr wythnos. Ydych chi'n gyflogwr â diddordeb cael prentis yn eich lleoliad? Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan.

[www.meithrin.cymru/lefel3/](http://www.meithrin.cymru/lefel3/)

## Yfed ar y Sul – Llanpumsaint – 4dd Ionawr 1901

Cyhuddodd P C William James Margaret Davies am gadw'r Clifford House ar agor ar Sul 16eg o Ragfyr. Adroddodd yr heddwes " Am tua 8.15 yr hwyr ymwelais â thafarn y Clifford.. Ar y sgiw wrth y tan oedd y gwas John Jones Banc Llanllawddog gyda pheint wrth ei ochr. Nesaf ato ar yr un sgiw oedd y lletywraig. Dyn priod yw Jones. Dywedodd Margaret Davies fod Jones wedi galw am werth chwe cheiniog o frandi i'w blentyn oedd yn sâl. Erbyn hyn yr oedd wedi cwato'r peint dan ei got, ond wedi ei archwilio canfûm fod ychydig o gwrw ynddo. Pam ei guddio? Gofynnais. Atebodd iddo ofni byddwn yn ei weld. Gofynnais ymhellach pa feddyg ddaeth i'w gweld. Dywedodd nid meddyg ond cyngor Mr Harries Rhiwlwyd Pencader y dydd Gwener cynt. Honodd y lletywraig ei fod yn perthyn iddi, ond deallais wedyn nad oedd hyn yn wir.

Dywedodd y diffynnydd nad oedd cwrw o gwbl yn y peint, dim diferyn ac nad oedd yn perthyn i'r dyn o gwbl. Anwiredd oedd honiadau'r heddwes meded hi. Cyhuddwyd John Jones wedyn am iddo fod yn y tafarn, gyda P C James yn ail adrodd ei dystiolaeth.

Dywedodd Capten Harries fod y lletywraig wedi ei chael yn euog yn Awst 1899 o drosedd cyffelyb, pan ddirwywyd hi o ddeg swllt a chostau. Derbyniodd yr heddlu gwyn ychwanegol ynghlyn ag ymddygiad rhedeg y lle. Adroddodd y Cadeirydd i'r Fainc ystyried a ddylid cadarnhau'r drwydded. Cafodd ddirwy o 15 swllt a thalu'r costau ond ataliwyd ardstio'r Drwydded. Derbyniodd John Jones ddirwy o 5 swllt a chostau.

## Angen ar Skanda Vale Arweinydd Cefnogol Meddygol Cyflogedig

Swyddogaeth: Arwain Cefnogaeth Feddygol (Swydd Gyflogedig)

Adrodd i – Pennaeth y Gofal

Oriau ; 80 awr y mis yn cynnwys amser clinigol a chefnogaeth barhaol a hyfforddi.

Safle ; Clafdy Skanda Vale. Mae'r swydd yn agored i weithio o bell ond bydd rhaid bod ar y safle i gyflawni'r agwedd glinigol o'r swydd.

Cyflog: I'w drafod ac yn ddibynnol ar y profiad.

Am ddisgrifiad llawn o'r swydd neu gynnig amdani ewch i [www.skandavalehospice.org/join-our-team](http://www.skandavalehospice.org/join-our-team)

## Llanpumsaint CRhA

Ar ran y CRhA hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth cyn y nadolig.

Diolch am eich cyfraniadau ir bin dillad, gofynwn yn garedig i chi beidio a gadael unrhyw fagiâu ar y llawr, os yw'r bin yn llawn gan na fydd y cwmni yn eu cymerud os yw'r dillad yn wlyb.

Byddwn wrthi eto yn codi arian dros y pasg, mwy o fanylian i ddilyn.

*Caryl Davies*

# Yn Dod yn Fuan

Mawrth 1af - Dewch i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn y Caffi Bach yn Eglwys Llanpumsaint 11.30 yb hyd 2.30 yp.

Mawrth 2ail Cyfarfod Curad Calon am Adfywio yn y Neuadd am 8 o'r gloch – Croeso i bawb.

Ambell dro ym Mis Mawrth - Dawnsio Llinell yn y Neuadd yn wythnosol am 7 o'r gloch - Dyddiadau i'w cadarnhau.

2 Ebrill - Lansiad Ymgyrch Fferm Wynt Brechfa i gychwyn gyda brechdanau brecwast am 8.30 gyda the/coffi a chacennau i ddilyn a 10.30.

## Pysgod ffres i'ch drws tŷ bob dydd Mercher

Mae Clive Davies wedi bod yn dod a physgod ffres i Lanpumsaint ers deng mlynedd. Os hoffech wneud archeb, cael y pysgod i'ch drws tŷ, neu gael pip fach i weld beth sydd yn y Fan yna ffoniwch 07779987305. Canol prynhawn fydd hi ar y dydd Mercher

## Arolwg Adar Ardd Leol - Ionawr 2022

Ar y penwythnos olaf yn Ionawr aeth aelodau 14 cartref, gyda the a choffi yw cynnal ati am awr i nodi pa adar ddaeth i lano yn eu gerddi. Danfonwyd y canlyniadau i arolwg wlad eang RSPB o Adar Gerddi. Mae'r erthygl yma yn grynodeb o'r hyn ddatgelwyd gan ein harolwg lleol.

Gwelwyd 29 gwahanol fath o adar gan gynnwys 4 sydd ar y Rhestr Goch Gadwraeth (Drudwys, Adar y To, Llinos Werdd, a'r Llinos Bengoch Leiaf), gyda 6 ar y rhestr Oren (Llwyd y Gwrych, Y Dryw, Ysguthan, Bronfraith, Coch y Berllan, a'r Ydfran). Y cyfartaledd o ymwelwyr i bob gardd oedd 12 (er i un cartref lwyddo cael 16 ymwelydd), a chyfartaledd o 25 i 40 yn cyrraedd o fewn yr awr nodedig.

Bu'r Robin Goch a'r Drudwys ymhob gardd gyda'r mwyafrif eto'n gweld y Titw Mawr. Titw Tomos Las, y Deryn Du, Aderyn y To a'r Ji-binc.

Yr ymhelwyr prinnaf oedd Coch y Berllan, Llinos Werdd, Pila Gwyrdd, Y Llinos Bengoch, Titw Cynffon Hir, Siglen Llwyd, Bran, Ydfran, Cigfran, Jac Y Do. Pioden a'r Durtur Dorchog.

Mewn rhyw hanner o'r gerddi gwelwyd Cnocell Fraith Fwyaf, Llwyd y Gwrych, Dryw, Sgrech y Coed, Delor y Cnau, Titw Penddu, Nico a'r Siglen Fraith.

Ni rifwyd y Barcud Coch, Bwncath na'r Gwalch Glas oedd yn hedfan uwchben. Ni rifwyd chwaeth ymwelwyr arferol i'r gerddi na wnaeth ymddangos adeg yr Awr fawr, megis y Dringwr Bach a Bronwen y Dŵr.

Gyda'r lleihad argyfyngus yn niferoedd adar adeg y blynyddoedd olaf mae'r RSPB yn pwysleisio safleoedd bwydo, llefydd iddynt ymolchi a nythu, yn enwedig i'n hymwelwyr Haf, yn enwedig y Wennol Ddu a Gwennol y Bondo. Mae'r ddau olaf yma ar Restr Goch Cadwraeth. Gwelwch y canlynol i'ch helpi i greu nythod

<https://www.rspb.org/uk.fun-and-learning/for-families/family-wild-challenge/activities/build-bird-box/>



# Village Voice February 2022

Copy date 26th March 2022

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange [www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk), email [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk). Please send items to [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk) or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY



Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund provides some funding for Village Voice and our website [www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk). We also receive funding from Llanpumsaint Community Council and all our advertisers. We thank them all for the support.



Daffodils - *Cennin Pedr*  
Carolyn Smethurst


## Village Voice

Llanpumsaint Community Information Exchange has been publishing Village Voice every 2 months since April 2010. We would like to thank all the individuals, clubs and organisations that have contributed articles to the newsletter, and to our advertisers who have supported us over the years. We have also received some funding from the Llanpumsaint Community Council, and latterly from the Brechfa West Wind Farm Fund. A copy of the Village Voice is also sent to the National Library of Wales!

And I mustn't forget to say thank you to the team of residents who deliver your copy of the Voice in all weathers. As editor, I am pleased to be able to announce that we have 2 more helpers to assist in editing Village Voice – I really appreciate your help.

Please continue to send me the articles, requests for information, news items and any other information, photos, posters etc and I will collate it ready for the rest of the team to make some sense out of it. Contact: [info@gwilimill.com](mailto:info@gwilimill.com)

Carolyn



**Cyclamen and Snowdrops**  
*Bara'r Hwch a Lili Wen Fach*  
Veronique Jones



**Scarlet Elf Cups** *Cwpan Robin Goch*  
Ann Pettitt



**Velvet Shanks** – *Coesau Melfed*  
Ann Pettitt



**Hellebore**  
*Y Galdryst Lydanddail*  
Carolyn Smethurst



**Hair Ice** – *Blewin Ia*  
Ann Pettitt



**Primrose** – *Briallu*  
Carolyn Smethurst



**Winter Sunset** – *Machlud Haul y Gaeaf*  
Clare Bishop



## Another Road Closure

B4301 Bronwydd Arms to Pontarsais from the junction at the Graig towards Pontarsais will be closed for major drainage works from Monday 14th February 2022 for 3 weeks.

Please note - this is information from County Council, not the contractor, so as with any County Council information, it might vary.

Ralph Carpenter

## Llanpumsaint Welfare and Recreational Association

Happy new year to all.

Despite yet another challenging year due to the Covid-19 pandemic, there have been many positives. The Llanpumsaint Welfare and Recreational Association has continued, with your great support and generosity, to raise money for the maintenance and upkeep of the park as well as our current chosen charity, Peony Breast Care Unit, Llanelli. So, a huge thank you to all.

We were very glad, that despite the weather and Covid situation, that the Santa Parade went ahead. Even though we were unable to gather at the Hall, it was great to see so many turn out to support. Thank you, Santa, for making time to come and see everyone in Llanpumsaint on Christmas Eve. We are also thankful to Mick Barrett, who kindly donated the selection boxes that Santa handed out to the children. The spare selection boxes left at the end were sent to the food bank in Carmarthen.

With the Brechfa fund grant works due to start, and plans to continue with our fundraising efforts, here's looking forward to an exciting year at the park. Thank you all once again.

As always, we are seeking new members to join the committee, so please get in touch if this is of interest to you. E-mail [parcllanpumsaintpark@gmail.com](mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com) or speak to one of the committee members.

As you may be aware, Derick has retired from his duties of running the 100 Club. The Llanpumsaint Welfare and Recreational Association is very thankful to Derick (as are many others) for all his hard work over the past years. The 100 Club provides the park with an invaluable annual donation towards its maintenance and upkeep. As we have been unable to find a replacement for Derick, the committee will be taking over the running of the 100 Club. If anyone is interested in joining, or in helping with the running of the 100 Club, please contact any of the committee members, or e-mail [llanpumsaint100club@gmail.com](mailto:llanpumsaint100club@gmail.com).

## Clwb Gwili Over 60s

Members and those wishing to join the Club will be pleased to hear that our meetings will be resuming as follows:

- February 28<sup>th</sup> St. David's Day celebration with Cawl and entertainment provided by the Carmarthen Ukulele band. Please would you bring a bowl and spoon for the Cawl and a small plate of light refreshments for after the dinner.
- March 28<sup>th</sup>: Mrs Mary Thorley – Carmarthen and the Suffragette Movement
- April 25<sup>th</sup>: Mr Ian Goddard – From Fleece to Rug
- May 23<sup>rd</sup>: Mr Robert Owen – RNLI

Meetings start at 2pm in Bronwydd Hall and are very popular!

*For more information, contact Secretary Val Giles on 01267 281194*

## Llanpumsaint Heartbeat

This small committee has provided, and currently cares for, the 4 defibrillators in the village. We would like to have additional committee members to help with the defibs. We want to provide regular training sessions in future, so that residents feel confident to use the defibs if ever they are called upon to do so.

The four defibrillators are listed in the national register. We also have discussed providing 2 more defibrillators, one near the school, and one by the bus stop as you leave the village.

A special general meeting will be held on **2nd March at 8 pm** to amend the constitution to reduce the number of members from 6 to 4 for the AGM, followed by the AGM in the hall.

The 4 defibrillators in the Llanpumsaint area are at the following locations:

- Outside the Village Hall SA33 6BZ
- Outside the Railway Inn SA33 6BU
- On the wall outside Henfryn on way to Ffynnon Henry SA33 6LD
- Outside the Vestry at Nebo SA33 6HN

You do not need a code – just open the cabinet and the defib is available.

If you want to talk about what we do, please call Carolyn on 01267 253308 or email [info@gwilimill.com](mailto:info@gwilimill.com)

## Nebo Chapel Services:

For information, please contact Chapel Secretary Meinir Jones on 253532

## Ffynnonhenri Chapel

For information please contact Danny Davies Treasurer on 01267 253418 or Gwyn Nicholas Secretary on 01267 253686

**Caersalem** - If you want to join us, please ring 253895 for more details.

## Llanpumsaint Allotments

If anybody is interested in learning more about the allotments, please contact Rosie on 07950 411536 or email [RosieFrewin@yahoo.co.uk](mailto:RosieFrewin@yahoo.co.uk) or speak to Ray on 253157.

## Cylch Meithrin Bronwydd (nursery)

If you have any enquiries, please contact Verona on 07929 431652

## Llanpumsaint and Nebo Short Mat Bowling Club

The new bowling season has been a stop-start event with the first match away against Llandeilo proving to be a successful 6-2 win. This was followed by a 4-4 draw away against Llanboidy B before Christmas. The next match was to be a home match against Llanddarog A in January. Unfortunately, due to covid restrictions, this match was postponed to a later date in the season. The latest match saw the team travelling again to Pontarothi for our 3<sup>rd</sup> away match of the season where we found ourselves up against a very strong home team and the end result was a 6-2 loss. We have 5 matches remaining: four home and one away.

Don't forget to check out our website [Llanpumsaintsmbc.org.uk](http://Llanpumsaintsmbc.org.uk) where you will find up to date information on the Club.

